24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Martin Nicholls
Prif Weithredwr
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

**Cyfeirnod:** 3381A2023

**Dyddiad cyhoeddi:** Chwefror 2023

Annwyl Martin

# Asesiad Sicrwydd a Risg 2021-22 – Diweddariad ar y sefyllfa ariannol

Yn dilyn ein llythyr diweddar yn rhoi diweddariad ar y cynnydd gydag Asesiad Sicrwydd a Risg 2021-22, dywedwyd byddem yn rhoi adborth ar rai agweddau penodol pellach ar y gwaith asesu sicrwydd a risg rydym wedi ei wneud. Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad ar y cynnydd o ran sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2021-22.

Gwnaed y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Asesiad Sicrwydd 2021-22 er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gallai hefyd fod yn sail i astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn cydnabod bod yr hinsawdd ariannol bresennol ac yn y dyfodol yn heriol ac yn hylifol, ac felly mae'r sylwadau hyn yn rhoi sicrwydd ar bwynt mewn amser a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran risg ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2021–22.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Sefyllfa Ariannol 2021–22

### Yr hyn a wnaed gennym

Gwnaethom ymgymryd ag asesiad o Sefyllfa Ariannol 2021–22 y Cyngor rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022. Casglwyd y dystiolaeth drwy gyfweliadau a thrwy adolygu dogfennau, gan gynnwys ystyried sefyllfa arian wrth gefn y Cyngor, cyflawni arbedion a pherfformiad arfaethedig o'u cymharu â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn. Er mai ar flwyddyn ariannol 2021–22 oedd pwyslais ein gwaith, pan fo hynny'n briodol, ystyriwyd gwybodaeth ariannol diweddarach hefyd pan fo hyn yn helpu i roi'r sefyllfa yn ei chyd-destun.

Hefyd, gwnaethom gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022, sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

### Yr hyn a nodwyd gennym

**Mae cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru a chronfeydd wrth gefn sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf wedi helpu i wella sefyllfa ariannol a sefydlogrwydd y Cyngor. Fodd bynnag, mae angen iddo lunio cynllun cynaliadwy i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol sylweddol sy'n dod i'r amlwg.**

### Strategaeth ariannol

Mae'r Cyngor yn adolygu ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig bob blwyddyn fel rhan o'i broses o bennu'r gyllideb flynyddol. Cymeradwywyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2023-24 i 2025-26 gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn amlinellu'r rhagdybiaethau dangosol blynyddol ar gyfer gwariant rhagamcanol, adnoddau tebygol a diffygion posibl o ran cyllid.

Roedd rhagdybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar gynnydd o 3.5%, 2.4% a 2% bob blwyddyn yn y Cyllid Allanol Cyfun o 2023-24 ymlaen, a chynnydd o 5% yn incwm y Dreth Gyngor bob blwyddyn o 2023-24 ymlaen.


Roedd Cynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 yn rhagweld pwysau ariannol ychwanegol o £40 miliwn yn 2022-23, o'u cymharu â chyllideb 2021-22, gan nodi'r amgylchedd economaidd ansicr ac effaith barhaus COVID-19.

Bwlch cyllid rhagamcanol y Cyngor ar gyfer 2023-24 oedd £4.5 miliwn, sy'n gynnydd bach o'i gymharu â'r bwlch £4.1 miliwn a ragamcanwyd yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Mawrth 2021.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 yn rhagweld bylchau cyllid ychydig yn llai ar gyfer 2024-25 a 2025-26 o'u cymharu â'r bylchau rhagamcanol yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth.

**Arddangosyn 1: mae bylchau cyllid rhagamcanol blynyddol y Cyngor dros y tymor canolig yn gyson â rhagolwg y llynedd ar y cyfan**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch cyllid blynyddol a nodwyd gan y Cyngor dros y tymor canolig ym mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022.





Roedd y bwlch cyllido rhagamcanol cronnol dros oes y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Mawrth 2022 hefyd yn dangos ffigur ychydig yn fwy o'i gymharu â Chynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2021. Erbyn 2025-26, rhagamcanwyd y

byddai'r bwlch ariannu yn £16.69 miliwn, o'i gymharu â £16.47 miliwn a ragamcanwyd yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2021.

**Arddangosyn 2: Ym mis Mawrth 2022, roedd cyfanswm bwlch cyllido rhagamcanol y Cyngor ar gyfer y tymor canolig i 2025-16 yn £16.7 miliwn, sydd ychydig yn fwy o'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth 2021.**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch cyllid cronnol a nodwyd gan y Cyngor dros y tymor canolig ym mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022. Mae'r ffigurau blynyddol yn gronnol.




Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi dyblu dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynyddu o £93.75 miliwn yn 2019-20 i £186.7 miliwn yn 2021-22. Gwnaed hyn drwy gyflawni arbedion, tanwario ei gyllideb refeniw, a chyllid ychwanegol yn ymwneud â COVID-19 oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 y Cyngor yn nodi 'mae'r Cyngor yn parhau i fod o'r farn bod defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi diffygion cyffredinol yn y gyllideb refeniw yn amhriodol'. Yn 2020-21, cyfanswm cronfeydd defnyddiadwy'r Cyngor oedd 33% o gost net ei wasanaethau, y ganran uchaf ond pump o'r holl gynghorau yng Nghymru. Mae'r ganran wedi cynyddu i 40.8% yn 2021-22.

Wrth bennu cyllid 2022-23, bwriadodd y Cyngor gyfrannu £3.52 miliwn i'w gronfa wrth gefn i gefnogi'r cyllid refeniw pe bai risgiau a phwysau chwyddiannol tebygol yn gwireddu yn ystod y flwyddyn. Y cyfraniad arfaethedig o'r cronfeydd wrth gefn oedd £17.21 miliwn. Roedd cyfanswm y cyfraniadau net o'r cronfeydd wrth gefn yn cyfateb i £13.69 miliwn.

**Arddangosyn 3: cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor o'u cymharu â'r cyllid blynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos faint o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy roedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021-22 a'r pum mlynedd diwethaf, fel cyfran o gost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor[2].

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau (£Miliynau)[3] | 425.03 | 429.49 | 440.34 | 444.56 | 435.41 | 457.86 |
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy (£Miliynau) | 68.1 | 68.43 | 77.02 | 93.75 | 144.51 | 186.70 |
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau | 16.0 | 15.9 | 17.5 | 21.1 | 33.2 | 40.8 |
| Cymhariaeth â chynghorau eraill yng Nghymru | 13eg | 12fed | 11fed | 8fed | 6ed | Ddim yn berthnasol |

[2] Ffynhonnell: 2016-17–2020-21: Offeryn data cynaliadwyedd ariannol Archwilio Cymru; 2021-22, datganiad o gyfrifon anarchwiliedig.

[3] Gweler y fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r ffigurau hyn yn Offeryn data cynaliadwyedd ariannol Archwilio Cymru.

**Cyflawni arbedion**

Nodwyd gennym yn flaenorol nad oes gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei arbedion yn ystod y blynyddoedd ariannol blaenorol, gan gyflawni £62.7 miliwn o arbedion arfaethedig o £83.3 miliwn rhwng 2016-17 a 2020-21.

Roedd y cyllid refeniw ar gyfer 2021-21, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021, yn cynnwys arbedion gwasanaethau arfaethedig o £8.321 miliwn. Cafodd y rhain eu cynnwys mewn cyllidebau Cyfarwyddiaethau ar lefel gwasanaeth a'u monitro gan Gabinet yn chwarterol. Yn 2020-21, ni wnaeth y Cyngor fonitro cyflawniad yn ôl arbedion arfaethedig yn 2021-22 oherwydd pandemig COVID-19.

Ar ddiwedd Chwarter 3 2021-22, nododd y Cyngor gorwariant gwasanaeth a ragwelwyd o £9.4 miliwn. Cafodd hyn ei gydbwyso drwy adennill costau tybiedig Profi, Olrhain, Diogelu a Gwasanaeth Tystysgrif Brechu Cymru o £7.1 miliwn, a chyfraniad o gronfa wrth gefn y Cyngor o £12.9 miliwn gan arwain at danwariant a ragwelwyd o £11.9 miliwn.

Roedd y sefyllfa alldro ar gyfer 2021-22 yn dangos gwelliant sylweddol ar yr alldro a ragwelwyd yn Chwarter 3, gyda'r tanwariant o £11.9 miliwn a ragwelwyd yn Chwarter 3 yn dod yn danwariant o £41 miliwn. Roedd y gwelliant hwn o ganlyniad i wireddu tanwariant arfaethedig ar draws gwasanaethau a nifer o ffrydiau ariannu ychwanegol hwyr gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Grant Cynnal Refeniw ychwanegol a chyllid diffyg yn y Dreth Gyngor.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 y Cyngor yn amlinellu arbedion arfaethedig rhwng 2023-24 a 2025-26 ar draws ei holl feysydd gwasanaeth. Cynigir arbedion o £4.5 miliwn, £7.7 miliwn a £5.15 miliwn ym mhob un o'r tair blynedd ariannol nesaf. Mae'r arbedion hyn yn cynnwys pwysau gwasanaeth ychwanegol o £1.9 miliwn, £0.23 miliwn a £0.50 miliwn yn yr un tair blynedd ariannol.

**Perfformiad o'u cymharu â'r gyllideb**

Ar ôl iddo fethu â chynnal ei gost gwasanaethau o fewn cyllidebau blynyddol, yn 2020-21, nodwyd gennym fod y Cyngor wedi tanwario'n sylweddol ar wasanaethau a oedd yn ymwneud â COVID-19 ac o gael cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Nododd alldro 2021-22 danwariant gwariant refeniw net o £41.2 miliwn, a oedd yn cynnwys tanwariant o £20.2 miliwn ar wasanaethau a £21 miliwn o ffrydiau cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Roedd pob un o bum prif faes gwasanaeth y Cyngor, Gwasanaethau Corfforaethol, Cyllid, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Lle yn dangos tanwariant yn ôl y gwariant arfaethedig o rhwng 1.4% a 12.4%. Roedd y rhesymau dros y tanwariant hwn yn cynnwys gostyngiad mewn gweithgarwch a gwasanaethau a gynlluniwyd oherwydd COVID-19, swyddi gweigion heb eu llenwi, gostyngiadau yn nifer y staff lle gostyngwyd gwasanaethau, a chostau is o weithgareddau a gwasanaethau a gomisiynir.

**Pwysau ar Gyllidebau'r Dyfodol**

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am risgiau parhaus i gyllideb 2022-23 ym mis Gorffennaf 2022 fel rhan o adroddiad alldro 2021-22. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau mewnol i feysydd gwasanaeth penodol, effaith ariannol barhaus COVID-19, pwysau demograffig ar wasanaethau a chostau parhaus yn ymwneud â'r apeliadau Statws Sengl gweddilliol.

Ers mis Gorffennaf 2022, mae pwysau chwyddiannol allanol, fforddiadwyedd codiadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac achosion o golli grantiau penodol sydd eisoes yn bodoli wedi cynyddu. Ar y cyd â'r pwysau costau byw y mae preswylwyr yn eu teimlo, mae hyn yn debygol o roi pwysau ariannol ychwanegol sylweddol ar y Cyngor, mewn meysydd megis cyfraddau casglu'r dreth gyngor ac atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cynghori.

Mae hyn ynghyd â'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o dynnu cymorth ariannol yn ôl drwy'r Gronfa Galedi a ffynonellau eraill sydd wedi galluogi'r Cyngor i fodloni ei gyllidebau arfaethedig, i liniaru yn erbyn gorwariant ar draws meysydd gwasanaeth ac i gynyddu ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol dros y blynyddoedd.

Bydd cynllunio ariannol yn y tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar ystod o ragdybiaethau, ac ynghyd â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd, bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i'r Cyngor.

Yn gywir,

**Archwilio Cymru**